# Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Diwrnod Dau

gonorthwales.co.uk
llechi.cymru

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

Cadw

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

Diwrnod Dau

Dynodwyd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, Gwynedd yn Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2021. Mae'n eiddo â chwe rhan: Dyffryn Ogwen; Chwarel Dinorwig; Dyffryn Nantlle; Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor; Ffestiniog & Porthmadog ac Abergynolwyn & Tywyn, gyda phob un yn cwmpasu chwareli a cheudyllau creiriol, safleoedd archeolegol yn ymwneud â prosesu llechi, aneddiadau hanesyddol, gerddi hanesyddol a plastai mawreddog, porthladdoedd, phlastai a cheiau, a rheilffyrdd a systemau ffyrdd yn yn arddangos cysylltiadau ymarferol a chymdeithasol y tirwedd ddiwydiannol creiriol. Mae'n cynnwys tirweddau chwareli ysblennydd megis Penrhyn, Dinorwig, Dyffryn Nantlle a Ffestiniog. Mae hefyd yn cynnwys yr Amgueddfa Llechi yn Llanberis, Castell Penrhyn a reilffyrdd enwog y Ffestiniog a Thalyllyn, wedi eu hadeiladu i gludo'r llechi o'r chwarel i farchnadoedd ledled y byd a thrawsnewidiwyd y ddau yn ddiweddarach i reilffyrdd treftadaeth.

Mae'r tirwedd yn adrodd stori anhygoel esblygiad cymdeithas amaethyddol yr ucheldir i un sy'n cael ei ddominyddu gan y diwydiant llechi; gyda threfi, chwareli a chysylltiadau trafnidiaeth yn cerfio eu ffordd drwy fynyddoedd Eryri i lawr tuag at y porthladdoedd eiconig.

I ddysgu mwy am y tirwedd llechi fedrwch ddilyn ein teithlen 3 diwrnod i ymchwilio i ddyfnder hanes neu ddewis a dethol diwrnodau unigol i brofi antur unigryw a chyffrous.

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

10 **Gwesty'r Celt**, a enwyd yn wreiddiol yr Uxbridge Arms adeiladwyd tua 1794 gan yr 2il Iarll o Uxbridge, a oedd yn enwog am ei Lwyddiannau i warchod ei farchfilwyr ym Mrwydr Waterloo.

11 **Taith Dywys Tref Caernarfon** - Taith gerdded yn egluro hanes y dref, o'r canol oesoedd, oes Fictoria hyd heddiw. Mae'r daith yn cynnwys gwybodaeth am Gastell Caernarfon o i'r 21ain ganrif, hanes muriau'r dref a hanes allforio llechi morwrol Caernarfon. Gallwch hefyd ddysgu am hanes Rhufeinig Caernarfon.

12 **Castell Caernarfon** - Palas caer Frenhinol wedi'i adeiladu ar chwedlau a gwrthdaro canoloesol chwerw. Mae Castell Caernarfon yn cael ei gydnabod o gwmpas y byd fel un o adeiladau mwyaf yr Oesoedd Canol.

13 **Mae'r Hen Lys**, Caernarfon yn adeilad rhestredig Gradd 1 sydd newydd ei adnewyddu gyda golygfeydd godidog o Gastell Caernarfon, yn cynnig Cinio, Te Prynhawn a Bwydlenni Hwyr yn eu bistro chwaethus Y Fainc.


14 **Mae Tafarn y Black Boy**, Caernarfon wedi ennill gwobrau Efydd am y bwyd gorau yng Nghymru ac wedi cael llawer o ysgrifau gwych yn Y Telegraph a'r Daily Post. Mae'r dafarn yn hyrwyddo ethos "o'r cae i'r fforc" sy'n darparu'r bwyd gorau posib wedi'i gyrchu'n lleol gan gyflenwyr o amgylch Gwynedd a Ynys Môn.

15 **Sefydlwyd Gwaith Llechi Inigo Jones** ym 1861 i gynhyrchu llechi ysgrifennu ysgol. Heddiw mae'r cwmni yn creu eitemau coffa a chrefft o lechi Cymreig. Mae yna taith hunan-dywys o amgylch y gweithiau sy'n cynnwys fideo a chyflwyniad iaith hyrwyddo. Mae ystafell arddangos crefftau, siop anrhegion a chaffi ar y safle, mae hefyd ar agor trwy'r flwyddyn.

16 **Tomen Chwarel Lechi Cilgwyn** - Yn Nyffryn Nantlle y llechi i ddechrau gan gysylltiadau trafnidiaeth gwael. Gydag agoriad rheilffordd yn cael ei thynnu gan geffylau i'r cei yng Nghaernarfon yn 1828, tyfodd chwareli Dorothea, Cilgwyn, Pen y Bryn, Tal y Sarn a Phen yr Orsedd yn gyflym. Yn y 1860au cafodd llawer o'r rheilffordd gynharach ei ymgorffori yn y brif lein newydd o Gaernarfon i Afonwen.

17 Lleolir **Gwinllan a Pherllan Pant Du** ar lethrau Dyffryn Nantlle, Eryri ac mae'n cynnwys caffi a siop fechan ar y safle. Gydag golygfeydd arbennig o'r Wyddfa a'r mynyddoedd o gwmpas, ynghyd a golygfeydd godidog o'r môr ar draws Bae Caernarfon, mae Pant Du mewn lleoliad delfrydol i fwynhau harddwch naturiol ysblennydd y mae Eryri yn ei gynnig.

18 **Gwesty Plas Tan Yr Allt, Porthmadog** - Stad Tan yr Allt oedd y fila rhaglywiaeth cyntaf Gogledd Cymru a brynwyd gan entrepreneur
a'r dyngarwr William Alexander Madocks yn 1798. Roedd yn fwyaf adnabyddus am adennill llawer iawn o dir o'r môr trwy ddulliau
o adeiladu arglawdd anferth o'r enw y Cob. Mae'r gwesty llai na 10 munud mewn car i dref harbwr Porthmadog sydd wedi'i leoli ar aber Afon Glaslyn ac sy'n gyfoeth o hanes morwrol. Mewn amseroedd a fu, roedd yn borthladd llongau prysur, yn hanfodol ar gyfer masnachu llechi rhyngwladol, a oedd yn dod lawr o chwareli Ffestiniog.



## Diwrnod Dau - Dyffryn Nantlle

Archwiliwch hanes a diwylliant cyfoethog Gogledd Cymru trwy ei diwydiant lechi Cymreig. Taith yn ôl mewn amser i ddysgu am ddyfodiad chwareli a diwylliant bywiog cymunedau, pob un ohonynt wedi llunio tirwedd ôl-ddiwydiannol yr ardal. Dilynwch ein teithlen 3 diwrnod i ymchwilio i ddyfnderoedd hanes neu fe allwch ddewis a dethol diwrnodau unigol i brofi antur unigryw a chyffrous.

### TEITHLEN

**Aros dros nos yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon**

Gwesty ★★★ (Sat Nav LL55 1AY)

**09.30 - 10.30**

**Taith dywys o dref Caernarfon gan gynnwys pwyntiau hanesyddol canoloesol a Fictoraidd o ddiddordeb**

(Sat Nav LL55 2YD)

**10.30 – 11.45**

**Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon ac Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig**

Sicrwydd Ansawdd (Sat Nav LL55 2AY)

**11.45 - 13.00**

**Cinio yn Yr Hen Lys, Caernarfon**

(Sat Nav LL55 2AY)

**neu Tafarn y Black Boy, Caernarfon**

(Sat Nav LL55 1RW)

**13.10 – 13.45**

**Gwaith Llechi Inigo Jones**

Sicrwydd Ansawdd (Sat Nav LL55 7SY)

**13.45 - 14.10**

**Tomen Chwarel Lechi Cilgwyn a Sgwrs Dywys**

(Sat Nav LL54 7SF)

**14.10 - 14.20**

**Trosglwyddo i Gwinllan a Pherllan Pant Du (teithiau ar gael Meh - Med yn unig)**

(Sat Nav LL54 6HE)

**14.20 - 16.00**

**Taith Gwinllan a Pherllan Pant Du a Te Prynhawn**

(Sat Nav LL54 6HE)

**Dros Nos**

**Gwesty Plas Tan yr Allt, Porthmadog**

Llety wedi'i Gofrestru (Sat Nav LL49 9RG)

Neu llety arall ar gael yn

**Nhafarn y Golden Fleece Inn, Tremadog**

Tafarn ★★★ (Sat Nav LL49 9RB)


















I archebu cysylltwch a

**croeso@gonorthwales.org.uk**

neu **01492 531731**

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

Cadw

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE